**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD.**
**25 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 25 Hydref 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rita Johnson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Marion Bateman, Chris Bithell, Clive Carver, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Ian Dunbar, David Healey, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Neville Phillips, Paul Shotton, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: Dave Hughes (ar ran Ian Smith)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Joe Johnson

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Patrick Heesom a Christine Jones

**A HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd.

## 6. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 7. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 8. ADRODDIAD SEFYDLU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar ddatblygiad y rhaglen sefydlu Aelodau yn dilyn yr etholiadau.

Yn dilyn adborth cadarnhaol ar y sesiynau sefydlu generig ar gyfer Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd, roedd rhaglen ddrafft o friffiau Datblygu Aelodau wedi eu paratoi i ddarparu sgiliau a gwybodaeth benodol i Aelodau a oedd eu hangen i gyflawni eu swyddi. Roedd y rhaglen yn destun adolygiad parhaus, er enghraifft, roedd gweithdai ychwanegol ar y Polisi Cludiant a Chytundeb Twf Gogledd Cymru wedi eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd mewn ymateb i geisiadau Aelodau. Roedd hefyd cyfle i Aelodau newydd fynd i ddigwyddiad rhanbarthol a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Croesawodd y Cynghorydd Chris Bithell yr ymagwedd tuag at y rhaglen sefydlu a oedd yn ceisio cynnwys cymaint o Aelodau a phosibl. Gofynnodd am fanylion ar y nifer a oedd yn bresennol yn y sesiynau sefydlu a sawl unigolyn nad oedd yn bresennol o gwbl, yn arbennig Aelodau newydd. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod Aelodau newydd wedi bod yn bresennol mewn o leiaf un sesiwn sefydlu. Cytunodd i ddarparu gwybodaeth mewn adroddiad i'r cyfarfod nesaf gan gynnwys manylion fesul slot amser, fel y gofynnwyd gan y Cynghorydd Glyn Banks.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Arnold Woolley, eglurwyd fod hyfforddiant Trosolwg a Chraffu wedi ei roi i bob un o'r pwyllgorau unigol hynny ac roedd hefyd wedi'i gynnwys yn y sesiwn gyflwyno Materion Cyfansoddiadol.

Holodd y Cynghorydd Mike Peers a ddylid dwyn ymlaen y sesiynau datblygu ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan fod y testun wedi'i godi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel maes i ganolbwyntio'n benodol arno yn ystod grwpiau trafod diweddar. Byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am eglurhad gan nad oedd hyn wedi ei nodi'n flaenoriaeth gan SAC.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Bithell bwysigrwydd sicrhau fod pob Aelod a swyddog yn deall eu cyfrifoldebau ar ddiogelu a chyfeiriodd at y sesiynau i'w darparu cyn cyfarfodydd y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac Archwilio. Eglurwyd fod y sesiynau'n agored i bob Aelod ac y byddai'r rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn ar y diwedd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r rhaglen sefydlu Aelodau a gynhaliwyd ar ôl yr etholiadau; a

b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r ymagwedd tuag at Ddatblygu Aelodau am weddill blwyddyn y cyngor, fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

## 9. <u>AROLWG AELODAU AR AMSEROEDD CYFARFOD</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar ymgynghori ag Aelodau ar amseroedd cyfarfod pwyllgorau, ynghyd â'r ffurflen arolwg arfaethedig. Amlinellodd yr ymagwedd arfaethedig i wahodd Aelodau etholedig ac wedi eu cyfethol i roi eu barn ar amseroedd a dyddiau a ffafriwyd, gan gynnwys y dewis o gyfarfodydd gyda'r nos.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at y goblygiadau posibl o ran cost o gynnal cyfarfodydd gyda'r nos ac awgrymodd y byddai cyfarfodydd gyda'r hwyr rhwng 5-7pm yn ddewis arall mwy cost effeithiol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gynnwys y dewis hwn ar yr arolwg gan y gallai helpu osgoi gwrthdaro gyda chyfarfodydd Cynghorau Tref/ Cymuned. Cytunodd hefyd y dylid dangos y slot amser 9am a 10am fel dewisiadau ar wahân, ar gais y Cynghorydd Clive Carver.

O ran cyfarfodydd gyda'r hwyr, codwyd pwyntiau gan y Cynghorydd Marion Bateman a Neville Phillips ar y goblygiadau o ran trefniadau gwaith staff a'r posibilrwydd o wrthdaro gyda chyfarfodydd Llywodraethwr Ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers mai dim ond aelodau pwyllgorau unigol ddylai gael pleidleisio ar amseroedd y cyfarfodydd hynny. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai unrhyw drefniadau newydd yn berthnasol i gyfarfodydd drwy gydol tymor cyfan y Cyngor presennol , ond yn ystod y cyfnod hwnnw gallai aelodau newid. Nododd hefyd y gallai Aelod sy'n dymuno bod ar bwyllgor penodol fethu a gwneud hynny oherwydd y trefniadau presennol.

Gan gefnogi'r ymgynghoriad ehangach, nododd y Cynghorydd Bithell fod Aelodau eraill yn aml yn mynd i gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu i arsylwi.

Cynigiodd y Cynghorydd Peers y dylid gofyn i Aelodau bleidleisio ar y pwyllgorau roeddynt yn gwasanaethu arnynt yn unig, gan gynnwys dirprwyon lle'r oedd rhai. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arnold Woolley. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar y gwelliant.

Fel dewis arall yn hytrach na'r arolwg, cynigiodd y Cynghorydd David Williams y dylai Aelodau o bob pwyllgor bleidleisio ar y trefniadau roeddynt yn eu ffafrio ar gyfer y pwyllgor hwnnw ar ddechrau bob blwyddyn. Cafodd wybod fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi defnyddio'r dull hwn o'r blaen drwy gytuno ar gymysgedd o gyfarfodydd bore a phnawn i annog presenoldeb.

Yna rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gynnig y Cynghorydd Williams i ymgynghori â phwyllgorau unigol ar eu dewisiadau. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Woolley a chafodd ei gefnogi gan y Pwyllgor.

Rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad y byddai eitem yn cael ei threfnu ar gyfer pob pwyllgor i ystyried patrwm cyfarfodydd a holi a oedd yr aelodau (gan gynnwys dirprwyon) yn dymuno pleidleisio ar bapur neu'n electronig. Yn ogystal, byddai pob Aelod yn cymryd rhan mewn arolwg ar batrwm cyfarfod y Cyngor llawn.

Eglurwyd y byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor a bod angen amser i ymgorffori unrhyw newidiadau i Amserlen y Cyfarfodydd ar gyfer 2018/19 cyn i'r Cyngor llawn eu hystyried ar 1 Mai 2018.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylid gofyn i Aelodau bleidleisio ar y trefniadau ar gyfer y pwyllgorau roeddynt yn gwasanaethu arnynt yn unig, gan gynnwys dirprwyon lle'r oedd rhai; a

(b) Dylid trefnu eitem ar gyfer pob pwyllgor i ystyried sut roeddynt yn dymuno pleidleisio ar y patrwm cyfarfodydd roeddynt yn ei ffafrio.

## 10. RHANNU GWYBODAETH YN Y CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar adolygiad arfaethedig o reolau o fewn y Cyfansoddiad ar rannu gwybodaeth. Y nod oedd rhoi eglurhad o ba lefelau o wybodaeth y gellid ei rhannu y tu mewn i'r Cyngor i ddiwallu anghenion Aelodau ac i gydymffurfio â deddfwriaeth.

Yr ymagwedd a argymhellwyd oedd sefydlu gweithgor trawsbleidiol dan arweiniad Is-Gadeirydd y Pwyllgor (yn absenoldeb y Cadeirydd) gyda chynrychiolaeth gan Aelodau'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai ac Addysg, sef y deiliaid portffolio sy'n ymdrin â'r data mwyaf sensitif.

Croesawyd yr adolygiad arfaethedig gan Aelodau a oedd yn cydnabod pwysigrwydd diogelu yn erbyn peryglon rhannu gwybodaeth.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'n mynd i gyfarfodydd i roi cyngor i'r gweithgor, ynghyd â swyddogion perthnasol eraill. Argymhellodd fod y gweithgor yn mabwysiadu ymagwedd fesul cam i ganiatáu ystyriaeth fanwl a dealltwriaeth o'r testun. Yna byddai'r rheolau'n cael eu rhannu ar gyfer ymgynghori cyn ceisio eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2018. Cytunodd i gysylltu ag Arweinwyr Grwpiau ar yr aelodau ar y gweithgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylid sefydlu gweithgor i ail ysgrifennu'r rheolau i swyddogion ac Aelodau sydd wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad ar sut y caiff gwybodaeth ei rhannu y tu mewn i'r Cyngor;

(b) Dylai'r gweithgor gynnwys hyd at 8 aelod gan gynnwys Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor, Aelodau Cabinet dros Addysg, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol (y mae eu portffolios yn ymdrin â'r data personol mwyaf sensitif) ac 1 aelod o bob un o'r grwpiau gwleidyddol eraill; a

(c) Dylid gofyn i'r gweithgor adrodd i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd mewn pryd i wneud argymhellion i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2018.

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu drafft ar gyfer 2016/17 i'w ystyried. Dosbarthodd ragair a awgrymwyd ar gyfer yr adroddiad, fel teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Ron Hampson fel y Cadeirydd pwyllgor a wasanaethodd am y cyfnod hiraf, a siaradodd Aelodau o'i blaid.

Yn dilyn awgrymiadau gan y Cynghorydd Mike Peers, cytunwyd i ymgorffori rhagymadrodd yn yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â sut y gellir cyflwyno eitem i'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn yr adran ar gyfarfodydd galw i mewn, byddai cyfeiriad at gynnwys y bleidlais bwyllgor ar y dewisiadau oedd ar gael.

Yn Atodiad 1 yr adroddiad, cwestiynodd y Cynghorydd Chris Bithell gywirdeb rhai o'r dyddiadau aelodaeth y cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd eu diwygio yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cynnwys y rhagair a awgrymwyd yn yr Adroddiad Blynyddol; a

(b) Bod y Pwyllgor, yn amodol ar y diwygiadau a gynigiwyd gan y Cynghorwyr Bithell a Peers, yn rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

**12. <u>AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.15pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**